Cofnodion cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar COVID hir 30/11/21

Yn bresennol:
Rhun ap Iorwerth AS
Heledd Roberts
Alex Still
Hefin David AS
Antonia Dewhurst
Bernadette Richards
Chris Schofield
Dee Montague
Dr Ian Frayling
Edward Sliz
Gail Allsop
Georgia Walby
Helen James
Helen Radford
Lee David Bowen
Liz Williams
Madelaine Phillips
Nicholas Webb
Rowena Christmas
Sally Callow
Sarah Williamson
Sian Griffiths
Kathryn Tancock
Theresa Howe

Chris Schofield, Coleg Brenhinol y Meddygon – ni ddylid anghofio'r problemau seiciatrig uniongyrchol a'r problemau iechyd meddwl anuniongyrchol a ddaw yn sgil COVID-19.

Kat Gower – mynegodd bryder am rôl therapi gwybyddol ymddygiadol (CBT) fel triniaeth ar gyfer COVID hir.

Ian Frayling – mynegodd bryder bod cleifion sydd wedi cael diagnosis blaenorol o gyflwr iechyd meddwl yn llai tebygol o gael diagnosis ynghylch cyflwr corfforol.

Chris Schofield – cytunodd ag Ian; 'cysgodi diagnostig' yw'r term a ddefnyddir ar gyfer y sefyllfa hon.

Rowen Christmas (Cadeirydd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yng Nghymru) – mynegodd bryder am nifer y cleifion sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru sydd â chyflyrau gwanychol. Mae angen cael gwybodaeth am ymchwiliadau sy'n ddefnyddiol yn y gymuned. Mae angen sicrhau mynediad hwylus at wasanaethau adsefydlu a gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol hefyd.

Gail Allsop – Arweinydd COVID Hir, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol – mae 75 y cant o feddygon teulu yn gweld cleifion sydd â COVID hir. Angen mynediad at ddiagnosteg a gwasanaethau adsefydlu, ond dylai'r rhan fwyaf o driniaeth fod yn gyfannol. Mae addysgu meddygon teulu ynghylch COVID hir yn hanfodol.

Theresa Howe - mynegodd bryder am y wybodaeth a fyddai gan feddygon teulu cyffredin am COVID hir, gan nodi na allwn ddibynnu ar feddygon teulu yn unig. Mae angen gweithredu ar ofal cleifion sy'n dioddef o COVID hir.

Georgia Walby – mynegodd bryder ynghylch y ffaith nad oes unrhyw gleifion yn ymwneud â'r broses o ddatblygu canllawiau ar gyfer meddygon teulu.

Rhun ap Iorwerth – yn parhau i aros am ymateb gan y Gweinidog Iechyd ynglŷn â Long Covid Kids a sicrhau bod COVID hir yn cael ei adnabod fel clefyd diwydiannol. Cadarnhad y bydd y Gwasanaeth Iechyd yn rhoi tâl salwch i staff sydd â COVID hir tan 31 Mawrth 2022.

Gerogia Walby – mae'r Pwyllgor Deisebau yn ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd ynghylch pryderon nad yw gwasanaethau COVID hir yng Nghymru yn dilyn yr argymhellion yng nghanllawiau NICE parthed sefydlu 'clinigau un stop'.

Kathryn Tancock – mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod COVID hir yn cael effaith anghymesur ar fenywod o oedran gweithio, sydd â goblygiadau ariannol enfawr i unigolion a theuluoedd ledled Cymru.  Mae Long COVID Wales yn gweithio gyda sefydliad Triniaeth Deg i Ferched Cymru (FTWW).

Dee Montague (FTWW) – rhoddodd ddiweddariad ar y cynnydd a wneir gan y Women & Girls Health Coalition a'r cynnydd a wneir ar y Datganiad Ansawdd.